# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)05-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 10 Gorffennaf 2007

**Amser:** 9.00 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda C

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Jane Hutt, Y Gweidniog sydd â chyfrifoldeb dros Fusnes y Llywodraeth

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn Bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)04-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 3 Gorffennaf 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes:**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)05-07(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 10 ac 11 Gorffennaf 2007.

3.2 Nododd y Pwyllgor y byddai'r Gweinidog dros Fusnes y Llywodraeth yn ateb cwestiynau ar ran Prif Weidnidog Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 7.50.

3.3 Nododd y Pwyllgor fod Dadl Leiafrifol gan Blaid Cymru wedi'i threfnu ar gyfer dydd Mercher. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cynnig yn cael ei dynnu'n ôl pe bai aelod o Blaid Cymru yn cael ei benodi'n Weinidog cyn y ddadl.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai Cyfnod Pleidleisio ddydd Mercher, ac y byddai pleidlais ar ddiwedd bob eitem ym Musnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth - BC(3)05-07(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth - BC(3)05-07(p3)**

3.6 Penderfynodd y Pwyllgor ar yr Amserlen 3 Wythnos ar gyfer Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Trefniadau Cyflwyno**

# (i) Papur gan y Swyddfa Gyflwyno am y Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad yr Haf - BC(3)05-07(p4)

4.1 Nododd y Pwyllgor fod angen penderfynu ar ddyddiau cyflwyno penodol yn ystod toriad yr haf er mwyn paratoi ar gyfer busnes y pythefnos cyntaf ar ôl y toriad. Cytunodd y Pwyllgor y byddai 11-14 Medi yn Ddyddiau Cyflwyno ac y byddai'r drefn ar gyfer cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig yn ystod y toriad yn aros fel yr oedd y llynedd, gan ganiatáu i'r Aelodau gyflwyno hyd at 5 cwestiwn ysgrifenedig bob wythnos. Byddai'n rhaid iddynt gyflwyno'r cwestiynau erbyn 10:30am ar y dydd Mercher bob wythnos.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**